# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Chwefror

2023

Amser: 09.00 - 10.04

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Y Strategaeth Arloesi (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diwygio Deintyddol (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 14 Mawrth*
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Uwchgyfeirio ac ymyrraeth bellach i wella safon gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (60 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.55pm.

**Dydd Mercher**

Gwnaeth y Trefnydd gais i ddadleuon y gwrthbleidiau gael eu haildrefnu i alluogi Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i ymateb i ddadl y Ceidwadwyr ar y Gymraeg. Ar y sail honno, gwnaed y newidiadau a ganlyn:

- Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd (~~30~~ 15 munud)
- Dadl Plaid Cymru: Cysylltiadau diwydiannol (60 munud) *Aildrefnwyd i eitem 6*

- Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Gymraeg (60 munud) *Aildrefnwyd i eitem 7*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.25pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Yn dilyn trafodaeth am weithredu diwydiannol a gyhoeddwyd ar gyfer 15 Mawrth, cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 7 Mawrth 2023**

- ~~Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2023 (15 munud)~~ *Gohiriwyd tan 21 Mawrth*

**Dydd Mawrth 14 Mawrth 2023**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd (45 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*
- Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg (45 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*
- Cwestiynau Amserol (20 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Diweddariad ar y terfynau cyflymder 20mya diofyn (30 munud)~~ *Tynnwyd yn ôl*
- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Diwygio Deintyddol (45 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Yn dilyn trafodaeth am weithredu diwydiannol a gyhoeddwyd ar gyfer 15 Mawrth, cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 14 Mawrth 2023 –**

- Cwestiynau Amserol (20 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*

**Dydd Mercher 15 Mawrth 2023 –**

- ~~Cwestiynau Amserol (20 munud)~~ *Symudwyd i 14 Mawrth*
- ~~*Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)*~~ *Gohiriwyd tan 22 Mawrth*
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 22 Mawrth*
- ~~Dadl Fer: James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 22 Mawrth*

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2023 –**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 29 Mawrth*
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ *Gohiriwyd tan 29 Mawrth*
- Dadl Fer: James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed) (30 munud) *Symudwyd o 15 Mawrth*
- ~~Dadl Fer: Carolyn Thomas (Gogledd Cymru) (30 munud)~~ *Gohiriwyd tan 24 Mai*

### 3.4 Effaith gweithredu diwydiannol arfaethedig.

Trafododd y Pwyllgor Busnes effaith gweithredu diwydiannol a gyhoeddwyd ar gyfer 15 Mawrth a chytunodd fel a ganlyn:

- i aildrefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i fore dydd Mawrth 14 Mawrth;
- i ddiwygio amserlenni Busnes y Llywodraeth a Busnes y Senedd a amlinellir uchod, gyda'r effaith na fydd Cyfarfod Llawn yn cael ei drefnu ar gyfer dydd Mercher 15 Mawrth;
- ddiwygio'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar a Chwestiynau Amserol i'w hateb ar 14 Mawrth i ddydd Mawrth 7 Mawrth; a
- diwygio'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar a chynigion i'w trafod ar 22 Mawrth i ddydd Mawrth 14 Mawrth.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) - amserlen

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyfeirio Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i ystyried yr egwyddorion cyffredinol, a gohirio penderfyniad ar amserlen y Bil er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor cyn dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 4.2 Ymateb gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl).

Nododd y Pwyllgor Busnes yr ymateb a gafwyd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i'w lythyr ynghylch gosod y Memorandwm yn hwyr a'r effaith a gaiff hynny ar yr amser sydd ar gael i graffu.

**4.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 5) ar gyfer y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio).**

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a phryderon y Pwyllgor ynghylch goblygiadau diwygiadau hwyr gan Lywodraeth y DU ar allu pwyllgorau i graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

**4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch ei adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).**

Nododd y Pwyllgor Busnes argymhellion 5 a 14 a wnaed gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd at y ddau fater a godwyd ar yr adeg berthnasol. Nodwyd yn arbennig y byddai angen ystyried gofynion Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (o ran amser eistedd y pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn) wrth gadarnhau dyddiadau ar gyfer tymor yr hydref a thoriad y Nadolig.

**4.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheol Sefydlog 30A – cydsyniad mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU**

Nododd Pwyllgor Busnes fod y Llywydd yn bwriadu ysgrifennu at y Prif Weinidog ynghylch ei disgwyliadau ar fater cydsyniad y Senedd mewn perthynas ag offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion y DU. Cydnabuwyd hefyd y byddai opsiynau ar gyfer adolygu Rheol Sefydlog 30A (ochr yn ochr â Rheolau Sefydlog cysylltiedig) yn cael eu dwyn i'r Pwyllgor Busnes maes o law fel rhan o'i raglen ehangach ar gyfer adolygiad gweithdrefnol.

### 4.6 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ynghylch adolygiad y Pwyllgor Busnes o’r weithdrefn Bil Aelod

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ystyried diweddariad ar ei raglen waith gweithdrefnol dros yr wythnosau nesaf, ar ôl i'r gwaith presennol ar bleidleisio drwy ddirprwy ddod i ben, er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i flaenoriaethu gwaith arall yn ymwneud ag adolygu ystod o faterion gweithdrefnol.

### 4.7 Papur i’w nodi - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a’r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch gwaith craffu ar oblygiadau ariannol Biliau.

Nododd y Pwyllgor Busnes yr ohebiaeth ddiweddaraf rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn.

## 5 Adolygiad o bleidleisio drwy ddirprwy

### 5.1 Meysydd posibl ar gyfer ymestyn: materion i'w trafod

Trafododd y Pwyllgor Busnes yr ymatebion i'w ymgynghoriad ag Aelodau ac ystod o faterion yn ymwneud â meysydd posibl ar gyfer ymestyn pleidleisio drwy ddirprwy fel rhan o'i adolygiad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori ymhellach â'u grwpiau pleidiau ar sail consensws sy'n dod i'r amlwg ynghylch ymestyn darpariaethau pleidleisio drwy ddirprwy i gynnwys salwch neu anaf hirdymor Aelod, cyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sydd â salwch neu anaf hirdymor ac absenoldeb oherwydd profedigaeth, a dychwelyd at drafodaeth bellach yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth.

Datganodd Darren Millar wrthwynebiad y Grŵp Ceidwadol i gadw neu ymestyn darpariaethau presennol pleidleisio drwy ddirprwy.